

CYFARFOD:	BWRDD PENSIWN
DYDDIAD:	22 CHWEFROR 2021
TEITL:	GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI
PWRPAS:	Adrodd ar gynnydd yn erbyn amcanion cyfredol
AWDUR:	DELYTH JONES-THOMAS, RHEOLWR BUDDSODDI

1. CYFLWYNIAD

Ar ddiwedd 2018, yn dilyn adolygiad o'r marchnadoedd ymgynghori buddsoddi a rheoli ymddiriedol, nodwyd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd ("CMA") dylai Ymddiriedolwyr Cronfeydd Pensiwn osod amcanion i'w ymgynghorwyr buddsoddi.

Mae'r amcanion wedi bod yn weithredol o 10fed o Ragfyr 2019.

2. GOSOD AMCANION I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae'r CMA yn nodi y dylai amcanion ar gyfer ymgynghorwyr gynnwys diffiniad clir o'r canlyniad a ddisgwylir, a dylent:

- fod wedi'u cysylltu yn agos gydag amcanion strategol y gronfa bensiwn
- cael eu hadolygu o leiaf pob tair blynedd, ac ar ôl pob newid sylweddol i'r strategaeth fuddsoddi neu amcanion

Mae sefydlu amcanion tymor hir yn rhan o drefniadau llywodraethu da. Mae'r estyniad o osod amcanion i ymgynghorwyr buddsoddi yn gallu cael ei ystyried fel dilyniant naturiol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn anelu tuag at yr un nod.

3. AMCANION CRONFA BENSIWN GWYNEDD I YMGYNGHORWYR BUDDSODDI

Mae'r amcanion gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yn Atodiad 1, gydag adroddiad cynnydd yn erbyn yr amcanion.

Mae datganiad cydymffurfio wedi ei arwyddo gan Gadeirydd y Pwyllgor Pensiynau erbyn y dyddiad cau gofynnol o 7fed Ionawr 2021.

4. AMCANION Y DYFODOL

Mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi cytuno yn ei gyfarfod 21ain Ionawr 2021 bydd yr amcanion cyfredol yn parhau am y cyfnod nesaf.

5. ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r wybodaeth.